# Adroddiad Arolygu

**Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth**

**Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth**
**Hen Gapel, Y Festri**
**Aberporth**
**Aberteifi**
**SA43 2DA**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

13/07/2023

# Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gofal Dydd Plant<br>Gofal Dydd Llawn |
| Darparwr Cofrestredig | Cylch Chwarae Dwyieithog Aberporth |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | Dyma'r arolygiad ôl-gofrestru cyntaf |
| A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg? | Ydy |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n bwriadu dod yn wasanaeth dwyieithog neu mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2023.***
*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost i: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*
*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

| | |
|---|---|
| **Llesiant** | **Da** |
| **Gofal a Datblygiad** | **Da** |
| **Yr Amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a Rheolaeth** | **Da** |

I gael rhagor o wybodaeth am raddau, gweler diwedd yr adroddiad hwn

## Crynodeb

Mae'r plant yn hyderus, yn fodlon eu byd ac yn mwynhau treulio amser yng Nghylch Chwarae Dwyieithog Aberporth. Mae ganddynt ymdeimlad cryf o berthyn ac maent yn meithrin cydberthnasau cadarnhaol ac yn gwneud ffrindiau mewn ffordd gadarnhaol. Caiff y plant gyfleoedd da i wneud dewisiadau ac i wneud penderfyniadau effeithiol am yr hyn y maent am ei wneud.

Mae'r staff yn deall y polisïau a'r gweithdrefnau ac yn eu rhoi ar waith yn effeithiol er mwyn cadw'r plant yn ddiogel. Maent yn garedig tuag at y plant, gan ryngweithio'n gadarnhaol â nhw er mwyn sicrhau eu bod yn hapus ac yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau rheoli ymddygiad cadarnhaol yn effeithiol iawn mewn modd cyson. Mae'r staff yn fedrus wrth gefnogi'r plant yn eu chwarae a'u dysgu.

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau trylwyr ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da. Mae'r amgylchedd yn diwallu anghenion y plant. Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau, gan gynnig amrywiaeth a dewis i'r plant.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn drefnus ac yn rheoli'r lleoliad yn dda. Maent yn ymdrechu i ddatblygu'r ddarpariaeth ac maent yn ymrwymedig i wneud gwelliannau parhaus. Maent yn annog partneriaeth weithredol â'r rhieni a rhanddeiliaid eraill. Maent yn llwyddo i ystyried eu polisïau fel rhan annatod o'r broses o redeg y lleoliad.

**Llesiant** **Da**

Mae'r plant yn cael llawer o ddewisiadau a gallant wneud penderfyniadau o ran sut i dreulio eu hamser yn y lleoliad. Maent yn symud o amgylch yr amgylchedd yn rhydd, gan ddewis ble yr hoffent chwarae a beth yr hoffent chwarae ag ef. Er enghraifft, nid oedd plentyn yn awyddus i ymuno yn y gweithgaredd tennis a gynlluniwyd, ac felly parhaodd â'i weithgaredd rhedeg. Mae'r plant yn cyfathrebu'n hyderus gan eu bod yn gwybod y bydd y staff yn gwrando arnynt ac yn ymateb yn briodol iddynt. Er enghraifft, wrth ddewis pa gân i'w chanu wrth gerdded i'r cyrtiau tennis. Mae'r plant nad ydynt yn gallu cyfathrebu ar lafar eto yn defnyddio Makaton ac arwyddion eraill fel pwyntio i gyfleu eu hanghenion a'u dymuniadau yn llwyddiannus.

Mae'r plant yn teimlo'n gyfforddus yn y lleoliad gan eu bod yn gyfarwydd â'r amgylchedd a'r arferion. Mae gan y plant gydberthnasau da â'r staff ac maent yn ddigon bodlon i fynd atynt am gysur neu gymorth pan fo angen. Maent yn gwneud ffrindiau gyda'r plant eraill gan ddangos empathi a gofal, er enghraifft, dal dwylo a'u helpu i deimlo'n hapus. Mae'r plant yn rhyngweithio'n dda o ystyried eu hoedran a'u cam datblygu. Mae'r plant yn dysgu i gydweithredu, rhannu a chymryd eu tro. Er enghraifft, gwnaethant aros yn amyneddgar am eu tro i ddefnyddio'r raced dennis, gan gymryd eu tro i daflu'r bêl at ei gilydd. Maent yn parchu ei gilydd a'r adnoddau, gan eu defnyddio'n briodol a helpu i dacluso pan ofynnir iddynt. Mae'r plant yn gwrtais a chlywsom blant o bob oedran yn dweud os gwelwch yn dda a diolch yn aml.

Mae'r plant wir yn mwynhau eu profiadau chwarae a dysgu. Er enghraifft, roedd llawer o wenu a chwerthin wrth iddynt chwarae '*What's the time Mr. Wolf?*'. Mae'r plant yn ymgysylltu â'r gweithgareddau a ddewisir ganddynt am gyfnod priodol o amser ar gyfer eu hoedran a'u cam datblygu. Gallant ddilyn eu diddordebau a mwynhau'r hyn y maent yn ei wneud. Mae'r plant yn ymfalchïo yn eu cyflawniadau ac yn dathlu eu llwyddiant gyda'i gilydd a'r staff, er enghraifft, gan ddathlu sut y gwnaethant lwyddo i daro'r bêl dennis, "*taller than Miss*".

Mae'r gweithgareddau a'r adnoddau sydd ar gael yn galluogi'r plant i roi cynnig ar bethau drostynt eu hunain ac i ddatblygu amrywiaeth o sgiliau. Er enghraifft, canolbwyntiodd plentyn ar geisio helpu i godi'r rhwyd ar gyfer y gêm dennis, gan ddyfalbarhau wrth geisio penderfynu pa ffordd y dylid gosod y rhwyd er mwyn sicrhau na fyddai'n syrthio. Mae'r plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i fod yn annibynnol. Mae'r eitemau a'r ardaloedd dysgu y maent am eu defnyddio ar gael yn hwylus iddynt ac mae'r rhai hynny sy'n gallu defnyddio'r cyfleusterau fel y toiledau a'r cyfleusterau golchi dwylo yn annibynnol yn gwneud hynny.

## Gofal a Datblygiad — Da

Mae gan y staff ddealltwriaeth dda o weithdrefnau'r lleoliad ar gyfer cadw'r plant yn ddiogel, ac maent yn eu dilyn yn effeithiol. Mae bron pob un o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant cymorth cyntaf pediatrig. Cedwir cofnodion manwl o unrhyw ddigwyddiadau a damweiniau, ac unrhyw achosion lle bydd y staff yn rhoi meddyginiaeth i blentyn. Mae'r rhieni yn llofnodi'r cofnodion i ddangos eu bod wedi cael gwybod. Mae'r staff yn hyderus ynghylch y gweithdrefnau priodol i'w dilyn pe byddai ganddynt unrhyw bryderon am blentyn, ac maent wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant.

Mae'r staff yn annog y plant i fwyta'n iach ac i yfed digon. Maent yn dilyn gweithdrefnau effeithiol i sicrhau bod anghenion plant ag alergeddau yn cael eu diwallu bob amser. Maent yn annog y plant i olchi eu dwylo yn ôl yr angen ac yn dilyn y gweithdrefnau priodol wrth newid cewynnau. Mae ardal benodol ar gyfer newid cewynnau sy'n cynnig lefelau preifatrwydd da i bob plentyn wrth newid cewynnau. Mae'r staff yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd rheolaidd i dreulio amser yn yr awyr agored, gan sicrhau eu bod yn datblygu eu sgiliau corfforol.

Mae'r staff wedi meithrin cydberthnasau cadarnhaol â'r plant, yn siarad â nhw mewn ffordd hoffus ac yn eu trin â gofal a pharch. Mae'r staff yn defnyddio strategaethau effeithiol i hyrwyddo ymddygiad cadarnhaol yn unol â pholisi'r lleoliad. Er enghraifft, maent yn tynnu sylw'r plant gan gynnig gweithgaredd arall os ydynt yn ei chael yn anodd rhannu neu gymryd eu tro ac yn rhoi esboniad clir pan na fydd eu hymddygiad yn dderbyniol. Mae'r staff hefyd yn modelu sgiliau cymdeithasol da yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant gan ddweud diolch a chanmol ei gilydd yn ystod gweithgareddau. Mae'r staff yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg drwy gydol y dydd ac yn annog ac yn hyrwyddo dwyieithrwydd ymhlith y plant.

Mae'r staff yn darparu amrywiaeth o weithgareddau llawn hwyl y maent yn gwybod y bydd y plant yn eu mwynhau. Drwy waith cynllunio yn y foment, mae'r staff yn ystyried safbwyntiau a diddordebau’r plant. Maent yn ymyrryd yn briodol i ddatblygu dealltwriaeth y plant, er enghraifft, drwy drafod y fuwch goch gota y daeth y plant o hyd iddi yn ystod eu picnic. Mae'r lleoliad yn gwneud cynnydd da wrth roi egwyddorion y Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith ac mae wedi gofyn am gymorth pellach gan yr awdurdod lleol. Mae gan y lleoliad drefniadau addas i nodi a chefnogi anghenion unigol y plant, gan gynnwys plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn casglu digon o wybodaeth am ddewisiadau, anghenion ac unrhyw wybodaeth berthnasol arall cyn i'r plant ddechrau yn y lleoliad. Mae hyn yn galluogi'r staff i gynllunio'n effeithiol ar gyfer anghenion unigol y plant. Mae gweithdrefnau da ar waith i weithio gydag asiantaethau allanol i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol ac i sicrhau bod anghenion unigol pob plentyn yn cael eu diwallu.

## Yr Amgylchedd — Da

Mae gan y bobl sy'n rhedeg y lleoliad bolisïau cynhwysfawr ac maent yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddigon diogel a'i fod mewn cyflwr da. Mae'r staff yn cwblhau asesiadau risg effeithiol a chywir. Cânt eu hadolygu'n rheolaidd, ac ymdrinnir ag unrhyw beryglon a nodir yn ddi-oed. Mae'r lleoliad yn lân, yn daclus ar y cyfan, ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda. Mae arferion glanhau effeithiol ar waith sy'n sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei reoli'n dda o ran atal a rheoli heintiau. Mae'r safle yn ddiogel, ac mae system gadarn ar waith i gofnodi unrhyw ymwelwyr sy'n dod i'r lleoliad. Mae'r staff hefyd yn sicrhau bod ymarferion tân rheolaidd yn cael eu cynnal fel bod y plant a'r staff yn gwybod sut i adael y safle yn gyflym ac yn ddiogel mewn argyfwng. Fodd bynnag, nid yw'r ymarferion tân yn ymarfer y llwybr ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng sy'n gysylltiedig â phob allanfa wahanol, gan ystyried y gwahanol ddulliau addas o ddianc sydd ar gael yn y lleoliad.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn gwneud yn siŵr bod ardaloedd chwarae dan do da ar gael, ac mae croeso i'r plant ddefnyddio'r holl ardaloedd hynny. Mae'r lleoliad yn olau, yn groesawgar ac yn hygyrch. Mae arddangosfeydd lliwgar sy'n hybu sgiliau llythrennedd a rhifedd o fudd i'r plant. Caiff gwaith y plant ei arddangos gan atgyfnerthu eu hymdeimlad o gysylltiad â'r lleoliad. Mae'r ystafell wedi'i rhannu'n ardaloedd diddorol sy'n helpu'r plant i chwarae a dysgu. Er enghraifft, chwarae rôl, adeiladu, a chwarae byd bach. Er nad oes gan y lleoliad ei ardal awyr agored benodol ei hun, mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn sicrhau eu bod yn ymweld yn rheolaidd â'r traeth lleol, ardal goetir, y parc, neu dir yr ysgol gynradd gyfagos bob dydd.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn darparu amrywiaeth eang o adnoddau, gan gynnig amrywiaeth o ddewis i'r plant. Maent yn darparu adnoddau amrywiol ar gyfer pob oedran a cham datblygu. Er enghraifft, drwy chwarae bloc, gweithgareddau synhwyraidd, gweithgareddau crefft, a gweithgareddau chwarae rôl. Gall y plant gael gafael ar y teganau a'r adnoddau yn hawdd, gan eu bod yn cael eu storio ar lefel isel neu o fewn eu cyrraedd. Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo amrywiaeth a chydraddoldeb ac yn cynnal amrywiaeth o ddathliadau. Er enghraifft, mae'r plant yn cymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth **Da**

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn effeithiol yn y ffordd y maent yn rheoli ac yn gweithredu'r lleoliad ac maent yn ymrwymedig i wneud gwelliannau parhaus. Maent yn meddu ar ddealltwriaeth dda iawn o'r gofal y maent yn ei ddarparu ac yn cymryd rhan weithredol wrth redeg y lleoliad o ddydd i ddydd. Mae ganddynt weledigaeth gryf y maent yn ei rhannu'n effeithiol ag eraill ac yn ei hadolygu'n rheolaidd. Maent yn diweddaru polisïau’r lleoliad ac yn sicrhau bod y staff yn eu rhoi ar waith yn ymarferol. Mae datganiad o ddiben ar waith sy'n rhoi darlun cywir o'r hyn y mae'r lleoliad yn ei gynnig. Mae'r datganiad hwn yn galluogi darpar rieni i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ynghylch defnyddio'r lleoliad. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi gweithio mewn ffordd gadarnhaol gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) yn ystod yr arolygiad hwn.

Mae gweithdrefnau cadarn ar waith ar gyfer hunanwerthuso'r lleoliad. Mae'r adolygiad o ansawdd y gofal yn ddogfen bwrpasol a thrylwyr sy'n ceisio cynnwys safbwyntiau a barn y plant a'r rhieni sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Mae'n nodi cryfderau'r gwasanaeth yn glir ac yn blaenoriaethu meysydd i'w gwella. Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad yn rhoi gweithdrefnau recriwtio diogel ar waith er mwyn diogelu'r plant. Maent yn rheoli'r staff yn dda. Mae ffeiliau'r staff yn cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei hangen i fodloni'r rheoliadau. Mae ganddynt dîm da o staff sy'n cydweithio'n dda iawn, gan sicrhau bod y plant yn cael eu goruchwylio'n dda a bod y lleoliad yn rhedeg yn ddidrafferth. Maent yn cynnal arfarniadau a sesiynau goruchwylio rheolaidd, gan roi cymorth a chyfle i drafod unrhyw faterion a allai godi.

Mae'r bobl sy'n rhedeg y lleoliad wedi meithrin cydberthnasau ystyrlon a chadarnhaol â'r rhieni a'r gofalwyr. Mae systemau effeithiol ar waith i roi gwybodaeth reolaidd i'r rhieni am yr amser y mae eu plentyn yn ei dreulio yn y lleoliad. Mae trefniadau trosglwyddo llafar trylwyr ar waith rhwng y staff a'r rhieni ar ddechrau a diwedd sesiynau ac mae'r lleoliad yn anfon negeseuon e-bost er mwyn rhannu lluniau o gyflawniadau arbennig. Mae gan y bobl sy’n rhedeg y lleoliad gydberthynas gadarnhaol â staff yr ysgol gynradd leol sy’n hwyluso'r trefniadau pan fydd y plant yn trosglwyddo o'r lleoliad i'r ysgol.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod nad yw'r darparwr yn cyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant Rheoleiddiedig ond nad oes unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn tynnu sylw at yr enghreifftiau hyn fel Argymhellion i Gyrraedd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol.

Rydym yn disgwyl i'r darparwr weithredu i ymdrin â'r rhain, a byddwn yn eu hystyried yn yr arolygiad nesaf.

| Safonau Gofynnol Cenedlaethol | |
|---|---|
| Safon | Argymhelliad/argymhellion |
| Safon 24 - Diogelwch | Sicrhau bod ymarferion tân yn ymarfer y llwybr ar gyfer gwagio'r adeilad mewn argyfwng sy'n gysylltiedig â'r gwahanol allanfeydd, gan ystyried y gwahanol ddulliau addas o ddianc o'r lleoliad. |

Pan fyddwn o'r farn y byddai hynny'n ddefnyddiol, mae'n bosibl y byddwn yn gwneud argymhellion arferion gorau. Nod yr argymhellion hyn yw annog lleoliadau sy'n gwneud yn dda i ddod hyd yn oed yn well wrth helpu plant i ffynnu.

| Arferion Gorau |
|---|
| Argymhelliad/argymhellion |
| Parhau i roi egwyddorion y Cwricwlwm newydd i Gymru ar waith. |

| Graddau | Ystyr y graddau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Gwasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Gwasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Gwasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hyrwyddo llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Gwasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau ac mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Lle bydd gwasanaethau yn wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn cyhoeddi hysbysiad diffyg cydymffurfio. |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 30/08/2023